

Mai 2021

Rhifyn 297



Anadla, anadl lŵr,
llanw fy mywyd i
fel byddo 'nghariad i a'm gwaith
yn un â'r eiddo ti.

cyf Alun Davies

Gair y Gweinidog

Mae'r haul yn gwenu! Fel yna mae hi wedi bod ers wythnosau bellach ac effaith hynny ar galon a meddwl wrth i ni gamu 'mlaen o dywyllwch y gaeaf. Mae'r wawr yn gynnar a'r dydd wedi ymestyn a'r linell dena honno rhwng gwanwyn a haf yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad mae yna bethau i'w gwneud a dim yn fwy na thorri porfa a thacluso ychydig ar wrychoedd a borderi. Tydw i ddim yn arddwr ond mae tacluso ychydig yn weithred bleserus ac yn arbennig felly wrth feddwl am y canlyniadau. Yn nhymor y nythu, ymuno'n symbolaidd â'r llu yna o adar sy'n meddwl am y dyddiau i ddod ac felly'n darparu'n briodol ar eu cyfer. Dyna ddigwyddodd ychydig ddyddiau'n ôl wrth lusgo'r hen beiriant torri gwellt ffyddlon o dywyllwch cornel bella'r cwt cadw popeth. Rhyfeddod fy mheiriant yw ei bod yn 'low maintenance' ac er segurddod y gaeaf fe daniodd yn syth ac felly i ffwrdd a ni! Wrth cerdded nôl ac ymlaen yn sŵn hymian tawel y peiriant, dyma ddechrau meddwl. Ymhlith y meddyiau hynny, ambell beth fydd yn ymddangos yn y rhifyn hwn o Perthyn. Diolch i Dilys am dynnu'n sylw at Wythnos Cymorth Cristnogol sef y 10fed i'r 16eg o Fai gyda'r ffocws ar Argyfwng Hinsawdd ac effaith hyn ar fywyd a bywydau. Mae ychydig o arddio ym mis Mawrth yn atgoffa rhywun fod y patrwm tymhorol yn newid ac er ein gallu i fyw gyda'r newidiadau hynny a gwirioni wrth weld ychydig o haul a chynhesrwydd yn gynharach yn y flwyddyn, nid dyna brofiad pawb. Y mae'r geiriau agoriadol ar dudalen gwefan Cymorth Cristnogol yn dweud y cyfan –

'Mae'r argyfwng hinsawdd hwn yn ein brifo i gyd. Ond mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn ymladd y gwaethaf ohono bob dydd.'

Er fod y flwyddyn yma eto'n wahanol, fe gawn gyfle i fyfyrion ond hefyd y cyfle i weithredu ac i roi gan gofio ein cyfrifoldeb a'n dyletswydd Cristnogol tuag at y greadigaeth a'n brodyr a'n chwirydd.

**‘Yn wir, rwy'n dweud wrthy ch, yn gymaint ag ichwi ei wneud
i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.’**

Yn ddiweddar bu farw'r diwinydd Hans Küng ac yn y cyfnod rhwng y Pasg a'r Pentecost mae'n dda cael ein hatgoffa o un o'i gyfrolau mwyaf amlwg sef 'Yr Eglwys', cyfrol sy'n trin a thrafod beth yw ystyr bod yn eglwys. Diolch i'r Parchedig Ddr John Tudno Williams am ei erthygl ac am gyfeirio at gyfrol arall o'i eiddo, 'On being a Christian', cyfrol sy'n trin a thrafod sylfeini'r Gristnogaeth ond hefyd mewn perthynas â chrefyddau eraill ac yn gofyn beth sydd gan y Gristnogaeth i'w gynnig heddiw. Mae criw Ffydd a Phaned brynhawn Gwener wedi penderfynu edrych ar y gyfrol wedi'r Pentecost ac mae yna groeso cynnes i unrhyw un ymuno o'r newydd. Wrth fyfyrto ar y ddealltwriaeth yna o'r Eglwys mae rhywun yn cael ei atgoffa o'r modd y mae cymdeithas pobl Dduw yn ymateb i amgylchiadau o un cyfnod i'r llall ac yn addasu rhan bywyd ac fe fyddai'n wir dweud, rhan credo ar adegau. Dyna sy'n digwydd yn gyffredinol mewn bywyd bellach a'r cyffro hwnnw wrth weld y cyfyngiadau presennol fel her yn hytrach na bygythiad. Diolch i Richard ac Angharad am ddangos i ni sut mae'r byd masnach a lletygarwch yn ymateb a gyda hynny, y cyfoeth sydd ar gael yn lleol.

Ymhen amser fe fyddwn yn dychwelyd i'r capel ond yn gwneud hynny mewn ffyrdd gwahanol. Fe fu'r flwyddyn olaf yn brawf o'n gallu i fyw yn wahanol fel eglwys a diolch i bawb fu'n gweithio'n ddyfal i sicrhau hynny. Fe fydd yna newidiadau ac yn eu plith yr oedfa wythnosol fydd yn cael ei darlledu'n fyw ar fore Sul, newidiadau fydd yn galw am syniadaeth newydd ond hefyd y ddealltwriaeth o aberth ac ymgysegriad. Ond yng nghanol hyn i gyd fe fydd yna un peth yn aros sef y ddealltwriaeth o Dduw yn nhermau cariad datguddedig. Cariad sy'n rhoi bod i fywyd a ffrwythau'r bywyd hwnnw; gras, trugaredd, cyfiawnder, maddeuant a'r alwad i chi a fi i fyw yng ngoleuni y cariad hwnnw a cheisio deall yn ddyddiol beth yw ystyr dilyn yr Iesu. Fe fydd hyn yn galon

unrhyw bresennol a dyfodol fydd yn rhan o'n bywydau a'm gweddi ddiwyll yw y byddwn yn meddu'r argyhoeddiad a'r ewyllys i ymateb i'w alwad.

Mwynewch y garddio!

Eifion.



NEWYDDION

Cofion a dymuniadau gorau.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Geraint Lewis Jones a Walford Gealey sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl. Ein gweddi yw fod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Edrychwn ymlaen at yr amser pan fyddwn yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Emma Holden a'r teulu ar farwolaeth ei thad, sef Mr.Simon Holden ym Mhortiwalgal.

Hefyd, Arwel Rocet Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o gollu mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl sef Mrs Euncice Jones, Rhos-y-bol, Sir Fôn.

Llongyfarchiadau

I Islwyn a Mair Hughes, Tŷ Gwyn, Ffordd Llanbadarn, fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar y 29ain o Fai, 2021. Pob iechyd a hapusrwydd i'r dyfodol.

Dymuno'n dda

Dymunwn yn dda i'r plant, yr ieuenctid a'r myfyrwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgolion a'r colegau yn dilyn y cyfnod clo.

Newyddion Ebeneser



Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at aelodau a chyfeillion Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.



Wythnos Cymorth Cristnogol 10 – 16 Mai 2021

Mae arwyddion newid hinsawdd o'n cwmpas yng Nghymru. Cawsom ddyddiau addfwyn ym mis Mawrth a thywydd rhewllyd ddechrau Ebrill. Mae'n ddymunol weithiau a thro arall yn anghyfleus!

Ond mae newid hinsawdd yn argyfwng i Rose a'i chymuned yn Kitui, Kenya. Mae tywydd eithafol yn gyffredin yno bellach - ceir sychder llethol a llifogydd sydyn am yn ail. Ni all y trigolion ddibynnu ar ddŵr i oroesi!

Mae Rose yn 60 oed a phan oedd yn blentyn, roedd y glaw yn disgyn yn gyson, y coed baobab yn llawn ffrwyth a digon o fwyd i bawb. Ond bellach, ni ellir dibynnu ar y glaw, gall y sychder barhau am fisoedd a bydd bwyd yn brin iawn. Dywed Rose "Rwy'n gweddïo i Dduw y bydd y glaw yn disgyn yn rheolaidd fel yr arferai wneud."

Mae Rose yn ymdrechu i ofalu am ei hwyrion sy'n byw gyda hi. Pan fydd sychder yn taro bydd yn cerdded ar daith hir a pheryglus i gasglu dŵr i'w theulu. Ni fydd yn bwyta cyn cerdded. Ar ôl dychwelyd ni fydd ganddi'r egni i wneud dim ond eistedd gyda'r hwyr. Ni all hyn barhau!



Weithiau bydd y glaw yn syrthio'n sydyn ac y drwm iawn a bydd llifogydd dros y wlad. Dim dŵr neu gormod o ddŵr! Er fod argae pridd (earth dam) gerllaw pentref Rose, mae'n llawer rhy fach! Mae'n rhy gul a nid yw'n ddigon dwfn i gasglu dŵr ar gyfer pawb yn y pentref. Bydd yr ychydig ddŵr sy'n cronni ynddo yn diflannu ymhen dim!

Gallai ein rhoddion ni i Gymorth Cristnogol helpu adeiladu argae pridd fyddai'n gallu casglu a dal llawer mwy o ddŵr na'r un presennol. Gallai'r rhoddion hefyd ddatblygu a threfnu hau hadau sy'n gwrthsefyll sychder fel na fydd y gymuned yn dioddef newyn.

Ydy, mae newid hinsawdd yn hunllef i Rose a'i chymdogion, ond wrth gefnogi Cymorth Cristnogol gallwn ni helpu i roi gobaith a hyder yn y dyfodol iddi hi a'i chymuned ym mhentref Dili, ger Kitui, Kenya.

Mae ein trysorydd, Dr Rhidian Griffiths,

Coed y Berllan,

Ffordd Bryn-y-môr,

Aberystwyth, SY23 2HX

yn barod i dderbyn ein rhoddion yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwnewch y sieciau'n daladwy i Gapel y Morfa, os gwelwch yn dda a gallwch ddefnyddio y ffurflen Rhodd Gymorth fydd ar wefan Capel y Morfa neu gwefan Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr am eich haelioni a'ch gweddïau dros gymunedau tlotaf y byd yn yr argyfwng hinsawdd sy'n bodoli. Cafwyd y llun a'r wybodaeth oddi ar wefan Cymorth Cristnogol

—

www.cymorthcristnogol.org – Wythnos Cymorth Cristnogol

2021

Cofiwch hefyd am y Cinio Bara a Chaws rhithiol ar yr 11eg o Fai am 12 o'r gloch. Bydd y ddolen yn cael ei gyrru atoch.

Y GYMDEITHAS

Mawrth 29

Daeth criw da ynghyd i gyfarfod olaf y tymor. Cawsom ein harwain yn y defosiwn gan Dafydd Morgan Evans. Gan ddilyn y drefn arferol cynhaliwyd adolygiad o weithgareddau'r tymor. Cyflwynodd Ifor Davies adroddiad y trysorydd. Eglurodd, oherwydd amgylchiadau anarferol y flwyddyn, na fu'n bosibl i'r Gymdeithas dderbyn arian i'r coffrau drwy'r dulliau arferol. Cytunwyd y dylai pwyllgor y Gymdeithas adolygu'n ymhellach y sefyllfa ariannol gyda'r golwg ar gyfrannu i achosion da. Diolchodd y cadeirydd i bawb a gyfrannodd i goffrau'r Gymdeithas. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â'r swyddogion gyda awgrymiadau am achosion teilwng. Atgoffwyd yr aelodau gan y Cadeirydd am gynnwys y rhaglen ar ffurf cywydd.

Arolwg o Dymor y Gymdeithas

Fe gawsom fendith rhithiol
Yn awr o edrych yn ôl,
Daeth ias o'r cymdeithasu
Wrth fyrhau y dyddiau du.

Llun 28 Medi - **Karen Owen** – 'Wele ni normal newydd,'

Diolchgar ym i **Karen**
A'i chynnyrch, llewyrch i'n llên,
A'i thestun, darlun o'n dydd,
'Wele ni normal newydd'.

Llun 12 Hydref - **Dr Elin Jones** – 'Y Cymry fu'n ymgyrchu yn erbyn caethwasiaeth yn y 18G a'r 19G

Hanes a gawsom nesa',
Sef hanesion dynion da,
Daeth **Elin** gyda'i thalent,
Hael ei gwên o ardal Gwent.

Llun 26 Hydref - **Cynan Llwyd** – 'Diolchgarwch – Cymdogion Rhyngwladol.'

Yna **Cynan** fu'n rhannu
Lluniau a delweddau lu,
A dal byd rhyw deulu bach
Yn awr mewn byd rhagorach.

Llun 9 Tachwedd - **Ann Parry Owen** – '35 mlynedd o ymchwil ar y bryn (Hanes y Ganolfan Geltaidd)'

Gydag **Ann** fe'n diddanwyd
A'i llais fel un Edward Llwyd
Yn ei hwyl wrth ymchwilio
Ar ryw fryn sydd uwchlaw'r fro.

Llun 23 Tachwedd - **Myrddin ap Dafydd** – 'Mae stori yn yr enw'

Hwn a'i ddawn wnaeth ein boddhau,
Myrddin a rhin yr enwau,
Yn esgor ar ryw stori
Yn nhafodiaith ein hiaith ni.

Llun 7 Rhagfyr - **Y Parch Judith Morris** – 'Dathlu'r Nadolig'

Judith a'i 'Dolig rhithiol
Fel roedd flynyddoedd yn ôl.
A gobaith rhyw hen gybydd
Ar ddod yn wŷr hael ryw ddydd.

Llun 11 Ionawr - **Gwynfor Jones.** – ‘Cwis’

Yna **Gwynfor** wnaeth ganfod
Yn y bôn fod twptra’n bod.
A rhodd bod yn amryddawn,
Mae’n gymysg ein dysg a’n dawn.

Llun 1 Chwefror **Eurig Salisbury** – ‘Englyn a thriban a staf:
medli o gerddi ar wahanol fesurau.’

Eurig ddyheug a ddaeth
A’i ddawn ym myd barddoniaeth,
Gan droi stori’n gerddi gwych,
‘ Chwaneg wnaeth inni’i chwennych.

Llun 22 Chwefror - **Mari Owen** – ‘Dathlu Gŵyl Dewi.’”

Daeth **Mari** a’i storïau
Am fywyd ym myd dramâu
Gan lawen agor llenni
Ar brofiad a’n mwynhad ni,

Llun 8 Mawrth - **Ioan Rhys Lord** – ‘Thorow the Mountain of
Talibont’ Mwyngloddio hynafol a
diweddar o gwmpas Talybont a Phontrhyfendigaid.’

Yna **Ioan** fu’n rhannu
Bydoedd y dyfnderoedd du,
Dod â’r ddaear fyddar faith
Yn ôl i’r golau’r eilwaith,

Llun 29 Mawrth - **Elfyn Llwyd** – ‘Betws a’r Byd’

Ond heno fel atyniad

Gŵr i sôn am ei grwsâd
A'i afiaith ar lan Tafwys
Wrth ddadlau biliau o bwys.

Braf oedd cael croesawu atom y cyn-aelod seneddol Elfyn Llwyd. Ei destun oedd 'Betws a'r Byd,' sef teitl ei lyfr sy'n cofnodi ei atgofion o'r digwyddiadau y bu'n rhan ohonynt yn ystod bron i chwarter canrif o wasanaeth fel Aelod Seneddol dros bobl Meirionnydd Nant Conwy a Dwyfor Meirionnydd. Cafwyd sgwrs gartrefol ganddo yn olrhain ei waith ar wahanol fesurau ac achosion a'i ymwneud hwyliog a heriol gydag aelodau, gwleidyddion a gweinidogion adnabyddus. Fe ddadlenodd ddigwyddiadau'r Tŷ gan gynnwys y broses o ddwyn achos uchelgyhuddo yn erbyn y Prif Weinidog Tony Blair, a'i rôl yn rhan o Ymchwiliad Chilcot. Cawsom hanesion am deithiau i bob cwr o'r byd – o Chernobyl i wersylloedd Darfur, o garchardai yn yr Amlaen, Denmarc a Norwy i un ymweliad cofiadwy ag Irac yn 2002 yng nghwmni Boris Johnson ymysg eraill.

Dyma ddywed Vaughan Hughes yn y broliant ar gefn ei lyfr
'Mae'r gyfrol drwyddi draw yn bortread cyfareddol o'r hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn y byd gwleidyddol...Ei allu i gydweithio i fod yn gryf a bod yn gyfrwys yn ôl y galw a'i galluogodd i fod yn wleidydd a fedrodd wneud gwahaniaeth ymhell tu draw i ffiniau ei etholaeth a'i wlad'.....'

Byddai ambell i hanesyn a rannodd yn hollol gartrefol mewn ffilm ysbwyr. Fel y tro hynny pan ddaeth yn ôl i'w fflat a chanfod llwch dros bob man a hanner y nenfwd wedi syrthio. Pan gyrrhaeddodd dau heddwes, gofynnodd un ohonynt iddo beth oedd ei alwedigaeth. Pan ddeallasant mai aelod seneddol oedd Elfyn, daethant i'r casgliad mae gwaith llaw y gwasanaethau cudd oedd yno. Yr hyn a roddai grediniaeth i'r honiad oedd bod pob darn o bapur wedi diflannu ond yr arian a'r dolennau llawes aur wedi ei gadael ar y pentan. Efallai

hefyd, fod ffaith fod gan Elfyn ddogfennau cyfrinachol yn ei feddiant rhywbeth i wneud a'r peth.

Diolchodd y cadeirydd iddo gan gyfeirio at ei wleidyddiaeth gymhwysol ac am godi ein hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd tu ôl i'r llenni gwleidyddol. Ymestynwyd y diolchiadau i gynnwys pawb y bu'r cadeirydd ar eu galw yn ystod y tymor, i Huw Evans am drefnu'r defosiwn, i rhai a gytunodd i'w geisiadau ac i'r aelodau am eu teyrngarwch drwy'r tymor. Dymunwyd yn dda hefyd i Gwerfyl Pierce Jones fel cadeirydd a Menai Williams fel ysgrifennydd y tymor nesaf.

Gareth Owen

Hans Küng



Ddechrau mis Ebrill fu farw'r diwinydd Hans Küng yn 93 mlwydd oed. Yn ddiau fe oedd un o ddiwinyddion mwyaf adnabyddus yr ugeinfed ganrif. Hannai o'r Swisdir, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd academiaidd ym Mhrifysgol Tübingen yn yr Almaen. Offeiriad Catholig ydoedd ar hyd ei yrfa, er iddo gollir hawl i ddarlithio yn y gangen Gatholig o'r Gyfadran Ddiwinyddol yno wedi iddo herio'r athrawiaeth am anffaeledigrwydd y Pab. Y Pab ar y pryd oedd y Pwyliaid Ioan Paul yr Ail a phennaeth newydd y Cynulliad i Amddiffyn y Ffydd (yr hen Chwilys) oedd Josef Ratzinger a fu'n gyd-

ddarlithydd ag ef yn Tübingen. Ymhen blynyddoedd fe'i etholwyd yntau'n Bab yn dwyn yr enw Bened XVI.

Yr athrawiaeth am gyfiawnhad oedd prif astudiaeth ei ymchil cynnar: dyma'r athrawiaeth, wrth gwrs, a oedd yn graidd y ddadl rhwng y Diwygwyr Protestannaidd, yn arbennig Martin Luther, a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Canolbwyntiodd Kúng ei sylw yn arbennig ar ddehongliad Karl Barth ohoni, a oedd, yn ôl un Pab, yn ddiwinydd mwyaf yr ugeinfed ganrif. Bu Kúng a Ratzinger yn gynghorwyr i esgobion yn ystod Ail Gymgor y Fatican a gyfarfu yn 1962: gobaith Kúng oedd y byddai'r Cyngor yn chwildroi llawer o athrawiaethau a threfniadau'r Eglwys Babyddol, ond fe'i siomwyd yn ddirfawr gan yr hyn a ystyriai yn arafwch, onid yn wir cyndynrwydd, yr awdurdodau'r eglwys i fabwysadu'r newidiadau angenrheidiol. Ymhen y blynyddoedd cefnu ar syniadau o'r fath wnaeth Ratzinger gan fabwysiadu safbwyntiau hynod geidwadol, onid adweithiol.

Cyhoeddodd Kúng 70 o lyfrau, ac mewn nifer ohonynt anelodd i gyrraedd cynulleidfa eang, ac yn ddiau llwyddodd yn hynny. Er enghraifft, astudiwyd ei *On Being a Christian* (1976) gan nifer fawr iawn: coffa da gennyf am y trafodaethau niferus a ysgogodd mewn ffraternal o weinidogion y cylch hwn ddeugain mlynedd yn ôl. Yn ddiweddarach canolbwyntiodd ar greu ymwybyddiaeth o'r angen am foesoldeb a fyddai'n gyffredin i grefyddau mawr y byd ac ynghlwm wrth hynny ymgyrchai dros fudiadau i ddiogelu'r bydysawd. Dyna'n wir yw ei neges yn y gyfrol *Global Responsibility* (1991), y lluniwyd cyflwyniad iddi gan y Tywysog Philip a fu farw yn yr un cyfnod ag ef. Credai yntau nad gwybodaeth am y ffeithiau ynglŷn â newid hinsawdd a fyddai'n debyg o ysgogi pobl i ymgyrchu dros yr achos hwn, ond yn hytrach ymlyniad wrth egwyddorion crefyddol a moesol cyffredin.

Yn 1999 anrhydeddwyd Kŭng gan Brifysgol Cymru â gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth ac fe'i derbyniodd yn Abertawe. Yr adeg hynny hefyd daeth i Goleg Llambed' i draddodi darlith ar destun y gyfrol uchod.

Cefais y fraint o 'i gyfarfod y pryd hynny a chofnododd ei enw yn fy nghopi o un o'i gyfrolau mwyaf swmpus Does God Exist ? (1980), gyda'r dyddiad 26 Mawrth, 1999.

John Tudno Williams.

Plant a Ieuenctid

Gwasanaeth Teulu

Cynhaliwyd gwasanaeth teulu ar Zoom ar fore Sul y Pasg. Diolch yn fawr i Eifion am drefnu ac arwain y gwasanaeth a chyflwyno stori'r Pasg trwy gyfrwng ffilm fideo a chaneuon oedd yn gyfoes ac yn addas ar gyfer y plant. Cafwyd cyfle i gael cipolwg ar luniau o'r gorffennol a gweld cynnyrch crefft Llanllanast y Pasg, baneri'r Pasg yn addurno'r capel ac wrth gwrs yr oen bach byw a fu'n rhan mor bwysig o'r gwasanaeth ar fore Sul y Pasg.

Meithrin y Morfa, Clwb Bore Sul a'r Grŵp Ieuenctid

Mae Catherine yn darparu stori, cân a chrefft ar gyfer Meithrin y Morfa yn wythnosol ar Facebook ac wedi parhau i wneud hynny yn ystod gwyliau'r Pasg. Ar ôl seibiant byr, mae'r Clwb Bore Sul a'r Grŵp Ieuenctid wedi ail-ddechrau ar ôl y gwyliau.



Mae'r Clwb Bore Sul yn mwynhau defnyddio'r bwrdd gwyn - un o adnoddau Zoom, ac yn cael hwyl ar gofnodi trwy gyfrwng lluniau a geiriau. Mae'n braf eu gweld yn trafod a chyd-greu. Y bore Sul cyntaf yn dilyn y Pasg, Ffrindiau a Chwllwm Ffrindiau oedd y thema, gan ddilyn hanes yr Iesu yn ymweld â'i ffrindiau ar ôl yr atgyfodiad – yn cyd gerdded â Cleopas a'i wraig ar y ffordd i Emaus a rhannu bara gyda hwy yn eu cartref ac yna yn ymweld â'r disgyblion pan oeddent gyda'i gilydd a rhannu swper â hwy.

Wrth gyflwyno hanes yr Iesu'n cyfarfod â Tomos ac yna Seimon Pedr ar lan Môr Galilea, y thema oedd Ail-gyfle . Roedd ail-gyfle i Tomos a Seimon Pedr i ddatgan eu teyrngarwch i'r Arglwydd Iesu. Mae'n dda gwybod fod ail-gyfle i ninnau hefyd.

Mae hanes y disgyblion yn pysgota ar Fôr Galilea a'r Iesu'n cyfarfod â Seimon Pedr yn y stori Picnic ar y Traeth wedi ei gofnodi gan y plant yn y llun.





Bore Sul Mai 9fed – Gwasanaeth teulu Cymorth Cristnogol ar Zoom

DECHRAU NEWYDD (unwaith eto!)



Mae pawb yn adnabod Richard ac Angharad ac felly wrth weld Aberystwyth yn dychwelyd i rhyw fath o normalrwydd dyma ofyn ambell i gwestiwn iddynt.

Angharad i ddechrau

Beth ydach chi wedi bod yn ei wneud yn ystod y cyfnod clo diwethaf?

Daeth cyhoeddiad y cyfnod clo dwetha fel tipyn o sioc i mi a phawb arall dwi'n credu, un munud roeddwn yng nghanol bwrlwm y Dolig yma yn y Siop a'r peth nesa roeddwn ar gau am gyfnod amhenodol. Wedi hynny rhaid cyfaddef fy mod wedi cael mis Ionawr digon diog ond daeth mis Chwefror a phrysurddeb y tymor wyna felly doedd dim esgus dros ddiogi mwyach! Roedd y boreau yn mynd yn bwydo a symud defaid ac wyn a fy mrynhawniau yn y Siop yn prosesu archebion, ateb ebyst a phostio archebion. Mae rhaid dweud fod yr amser wirioneddol wedi hedfan heibio rhwng popeth!

Beth ydach chi'n edrych ymlaen ato fwyaf yn ystod y misoedd nesaf?

Mae mor braf bod nôl yn y Siop llawn amser erbyn hyn yn dal fyny hefo pawb a threulio rhan fwyaf o'r diwrnod yn clebran! Mae'r dyfodol yma yn reit gyffrous ar hyn o bryd, mae ein gwefan yn cael ei ddatgilygu'n araf bach felly rydym yn edrych ymlaen yn fawr i ychwnaegu'r agwedd yma i weithgaredd y busnes. Dros y flwyddyn dwetha rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar gasgliad o gardiau cyfarch, prints, papur lapio a phosteri addysgiadol i blant. Mae Thomas fy mrawd yn artist a chynllunydd graffeg felly rydym wedi uno er mwyn ceisio ehangu ar y busnes. Ein gobaith mawr yn ystod y flwyddyn nesa yw datblygu ein ystod o nwyddau ac mewn amser eu cyfanwerthu i siopau eraill ar draws Cymru. Felly digon i wneud!

A hithau wedi bod yn flwyddyn mor wahanol, beth fydd yn aros yn y côf?

Mae'n wir dweud bydd y flwyddyn dwetha ma yn gyfnod pwysig yn ein hanes, dwi ddim yn credu bod neb wedi

rhagweld hyn yn dod! Ond mae rhaid dweud bydd nifer fawr o bethau'n mynd i aros yn y cof, yn bersonol roedd y profiad o fynd i weithio yng nghegin yr Ysbyty am gyfnod yn brofiad gwerthfawr iawn, roedd hi mor braf i wneud rhywbeth hollol wahanol i'r arfer, cefais brofiad gwych o weithio fel rhan o dîm a chwrdd a phobl arbennig sy'n gweithio'n hynod o galed ar ein rhan. Er bod y Siop wedi bod ar gau am gyfnod helaeth o'r flwyddyn byddaf bendant yn cofio'r gefnogaeth wych dderbyniom yn ystod y cyfnod yma.

Yn economaidd a chymdeithasol oes yna wersi newydd i'w dysgu o'r cyfnod yma?

Rwyf bendant o'r farn fod yna nifer o wersi i ddysgu o'r flwyddyn ddwetha ac mae nifer o arferion da wedi dod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r flwyddyn. Yn economiadd rwy'n credu fod pobl wedi sylweddoli pa mor bwysig yw gwario'n lleol a chefnogi busnesau bach annibynnol. Mae'n amlwg fod dirywiad y 'Stryd Fawr' i weld ymhobman gyda'r siopau mawr cadwyn yn cau ac yn troi tuag at werthu ar-lein. Mae'n amlwg fod newidiadau mawr i ddod i ganol ein trefi a credaf fod hyn yn gyfle i ni fel perchnogion busnes annibynnol weithredu a chynnig rhywbeth gwahanol a phositif i'n cymunedau. Yn gymdeithasol mae yna nifer fawr iawn o arferion da i'w gweld ac rwy'n mawr obeithio gweld rhain yn parhau, rydym bendant yn bobl llawer mwy caredig, amyneddgar a chymwynasgar ac mae'n bwysig ein bod yn cofio hyn pan fydd pethau yn dychwelyd i normalrwydd.

Richard

Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn ystod y cyfnod clo diwethaf?

Mi es i nôl y drwms allan o'r atig a chwarae am y tro cyntaf ers 30 mlynedd. Esgys i wneud sŵn a dwi'n ymddiheurio i'm cymdogion.

Es i ar lawer o deithiau cerdded a threuliais amser efo'r teulu. Yn y gwaith fy nôd oedd dod allan o'r cyfnod hwn ar ôl cyflawni'r newidiadau angenrheidiol i'r busnes na allwch ei wneud pan fydd y gwesty ar agor. Yn y cyfnod clo hir blaenorol, gwnaethom osod cegin fasnachol newydd ac addurno'r prif risiau. Y tro hwn roeddem wedi paratoi'n well ac wedi trefnu cyllid. Felly fe wnaethon greu 3 ystafell wely newydd sbon ar y llawr gwaelod, uwchraddio dodrefn ac addurno'r ystafelloedd gwely, gosod goleuadau newydd yn yr ardd, addurno'r dderbynfa, symud y swyddfa weinyddol, creu sied feiciau y gellir ei chloi a phrynu boeleri nwy newydd.

Beth ydach chi'n edrych ymlaen ato fwyaf yn ystod y msieodd nesaf?

'Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â ffrindiau, teulu a gwesteion wyneb yn wyneb a dychwelyd i normal. 'Rwyf wrth fy modd yn sgwrsio a chwrdd â phobl yn fawr iawn.

A hithau wedi bod yn flwyddyn mor wahanol, beth fydd yn aros yn y cof?

'Rwyf wedi treulio mwy o amser o ansawdd gyda Jane a Ffion. Rwy'n gweithio oriau gwirion, saith diwrnod yr wythnos ac mae busnes bob amser wedi cael ei roi gyntaf. Felly mae gallu mynd am dro neu dim ond eistedd a gwyllo'r teledu gyda'n gilydd yn beth prin. Bywyd arafach ac amser i feddwl i fod yn onest.

Yn economaidd a chymdeithasol oes yna wersi newydd i'w dysgu o'r cyfnod yma?

Yn economaidd, rhaid inni gael gwell cynllunio; dylai'r strwythur i ddarparu cymorth ariannol fod yn dasg syml o ailgyfeirio treth incwm yn ôl gyda'r addasiadau perthnasol, roedd y pecynnau cymorth Covid-19 yn agored i dwyll. Er bod rhai busnesau wedi'u galluogi i gynnal staff ac amddiffyn eu haelwydydd, fe aeth eraill heb gefnogaeth.

Rhaid i ni gael gwared ar y straen a helpu i osgoi problemau ariannol. Tlodi yw problem mwyaf ein cymdeithas o hyd. Yn gymdeithasol, 'rwy'n credu ein bod i gyd wedi sylweddoli pa mor bwysig yw ein teuluoedd, ffrindiau a chymunedau. Dylai pob un ohonom weithio'n galetach i'w cynnal. Mae ein hamser personol yn werthfawr a rhaid i ni wneud gwell defnydd ohono. Gall hyd yn oed y pethau bach wneud gwahaniaeth.



Gweddi dros adeiladu Teyrnas Dduw – ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol

Rho i ni, Arglwydd Dduw,
weledigaeth o'r Deyrnas y mae dy gariad yn ei
ddymuno:
byd lle mae'r gwan yn cael eu gwarchod, ac nad aiff
neb yn llwglyd,
byd lle mae bywyd yn cael ei rannu, a'i fwynhau gan bawb,
byd lle mae pob hil, cenedl a diwylliant yn byw mewn
goddefgarwch a pharch,
byd lle mae heddwch yn cael ei adeiladu gyda
chyfiawnder, ac y mae cyfiawnder yn cael ei arwain
gan gariad.
Rho inni'r ysbrydoliaeth a'r dewrder i adeiladu dy
Deyrnas yma ac yn awr.
Amen



**Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De
SASIWN RITHIOL 2021
Pnawn dydd Iau, Mai 20fed, 2021
am 2.00 o'r gloch**

Llywydd: Y Parch Lona Roberts

Anerchiad gan Yr Athro E. Wyn James

'Pedr Fardd a'i Weledigaeth Genhadol'

Mrs. Sarah Morris

Thema 'Myfi yw y Bugail Da'

Mrs. Molly Thomas

Adroddiad Ariannol

Miss Annie Derrick

Croesawu Sasiwn Mai 19eg, 2022 i Eglwys y Gopa,
Pontarddulais

Croeso cynnes i bawb

**Bydd y ddolen ar gael yn agosach at yr amser
Cysylltwch â Eleri Davies**

Is-bwyllgor y Chwiorydd
Daeth y wybodaeth yma oddi wrth Sarah Morris

1. Cyfres o 7 Astudiaeth Feiblaidd

Mae merched y Beibl yn wahanol iawn i ni mewn sawl ffordd, ac eto i gyd, rydyn ni'n aml yn wynebu'r un materion ag y gwnaethon nhw. Wrth i ni astudio eu cyfarfyddiadau â Iesu, byddwn yn gweld ei gariad, ei dosturi a'i rym ac yn sylweddoli ei fod am gwrdd â ni hefyd.

Bydd y gyfres hon o 7 astudiaeth yn cael ei chynnal ar Zoom ac estynnir croeso cynnes i bawb. Bydd pob astudiaeth yn gyflawn ynddo'i hun, felly maen nhw'n addas os na allwch chi cyrraedd pob un, maen nhw'n para am oddeutu awr ac yn cynnwys amser i sgwrsio yw grwpiau llai.

Cynhelir brynhawn Mercher am 1.30: Ebrill 21ain, 28ain / Mai 12fed, 26ain / Mehefin 9fed, 23ain / Gorffennaf 7fed

**Mae'r ddolen Zoom isod (yr un ddolen ar gyfer pob
astudiaeth)**

**<https://us02web.zoom.us/j/82317151660> ID y Cyfarfod: 823
1715 1660**

Dros y ffôn 01314601196

2. Llyfr adnoddau newydd wedi ei gyhoeddi gan Is-bwyllgor y Chwiorydd ar y thema Myfi yw'r bugail da sydd yn cynnwys deunydd addoliad, astudiaethau, syniadau crefft a gwybodaeth am brosiectau.

Golygyddion y mis hwn – Eifion ac Alwen
Golygyddion mis Mehefin – Eifion ac Alwen
eifionroberts095@btinternet.com

SULIAU MAI

Oedfaon i gyd ar Zoom am 10.00 o'r gloch
Fe fyddwn yn eich hysbysu o unrhyw newidiadau

2 – Eifion Roberts
9 – Oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol
16 – Eifion Roberts
23 – Sul Y Pentecost – Oedfa Deulu
30 – Elwyn Richards

FFYDD A PHANED PRYNHAWN GWENER



Mai 7 – Ystyr aelodaeth
Mai 14 – Priodas
Mai 21 – Mynd yn hŷn!
Mai 28 – Cyflwyniad
Mehefin 11 – Y Person Iesu
Mehefin 18 – Beth wyt ti'n gredu?
Mehefin 25 – Cristnogaeth, crefydd ymysg crefyddau!
Gorffennaf 2 – Beth sydd gan y Gristnogaeth i'w gynnig heddiw?

Croeso i bawb. Cysylltwch i dderbyn y ddolen.

